

Derbyniadau i Ysgolion - canllaw i etholwyr

Medi 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6292**

E-bost: Sian.Hughes@Senedd.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Gwefan: ymchwil.senedd.cymru

© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Derbyniadau i Ysgolion - canllaw i etholwyr

Medi 2021

Awduron:
Siân Hughes



Cynnwys

Derbyniadau i Ysgolion.....1

Deddfwriaeth a chanllawiau	1
Esboniad o rai termau.....	1
A oes unrhyw reolau ynghylch sut mae awdurdodau derbyn yn pennu eu trefniadau?	2
Pryd mae'n rhaid i mi wneud cais am le ysgol?	2
A all rhiant ddewis ysgol benodol i'w blentyn?.....	3
A yw rhieni'n cael gwarant o le yn yr ysgol o'u ddewis?.....	3
Beth fydd yn digwydd os oes mwy o geisiadau nag o leoedd yn yr ysgol?.....	4
A oes unrhyw feini prawf gor-alw na chaiff awdurdodau derbyn eu defnyddio?	4
A oes unrhyw ofynion i rai plant gael mwy o flaenoriaeth nag eraill?4	
A yw plentyn ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn sicr o gael lle mewn ysgol benodol?	5
Ble alla i ddod o hyd i wybodaeth ynglŷn â derbyn ar gyfer ysgolion yn fy ardal?	7
Pryd mae'n rhaid i blentyn ddechrau mynd i'r ysgol?	7
A gaiff plentyn ddechrau'r ysgol yn hŷn na 5 oed?.....	7
A yw hyn yn wahanol i 'ohirio derbyn'?.....	8
A yw'r drefn derbyn i'r ysgol feithrin yn wahanol i'r drefn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd?.....	8
A oes cyfyngiadau ar nifer y plant y gellir eu derbyn i ddsbarthiadau babanod?.....	9

A yw'r trefniadau ar gyfer y chweched dosbarth yn wahanol? 9

Apelau derbyn i ysgolion 10

A allaf apelio os na nad ydw i'n cael cynnig lle yn fy newis ysgol? 10

Beth allaf ei ddisgwyl o'r apêl? 10

A allaf ddod â rhywun gyda fi i'r apêl? 11

Os ydw i'n colli'r apêl, sut gallaf fynd â'r mater ymhellach?.....12

Derbyniadau i Ysgolion

Mae'r briff hwn yn rhoi ychydig o wybodaeth gefndirol am y broses derbyn i ysgolion ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac yn ateb rhai cwestiynau cyffredin. ...

Deddfwriaeth a chanllawiau

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion wedi'i hamlinellu yn **Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r **Cod Derbyn i Ysgolion** (Gorffennaf 2013) a'r **Cod Apelau Derbyn i Ysgolion** (Rhagfyr 2013). Mae'r Codau yn gosod gofynion ac yn cynnig arweiniad mewn perthynas ag awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn, a phaneli apelau derbyn yn cyflawni eu swyddogaethau derbyn ac apelau ysgol. Rhaid i'r cyrff hyn 'weithredu yn unol â'r' Codau.

Esboniad o rai termau

Awdurdod derbyn - Caiff y trefniadau derbyn plant i ysgolion ei reoli a'i weinyddu gan 'awdurdod derbyn'. Y math o ysgol sy'n pennu pa awdurdod derbyn sy'n berthnasol. Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir (oni bai bod y swyddogaeth hon wedi'i dirprwyo'n llawn i'r corff llywodraethu). Yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yw corff llywodraethu'r ysgol.

Trefniadau derbyn - Yr awdurdod derbyn sy'n pennu'r trefniadau derbyn. Mae'r trefniadau'n nodi sut y bydd plant yn cael eu derbyn, gan gynnwys y meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio os oes mwy o geisiadau na lleoedd yn yr ysgol.

Capasiti ysgol - Capasiti ysgol yw nifer y lleoedd sydd ganddi i ddisgyblion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, **Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru** sy'n nodi dull y mae pob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a gynorthwyr, ysgol wirfoddol a reolir, ac ysgol sefydledig yng Nghymru yn ei ddefnyddio i gyfrifo capasiti.

Nifer derbyn - Nifer derbyn ysgol yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i grŵp blwyddyn. Rhaid i awdurdodau derbyn roi sylw i'r 'nifer derbyn dangosol' ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Cyfrifir y nifer derbyn dangosol yn unol â'r dull asesu capasiti a nodir yn y canllawiau mesur capasiti. Cyfrifir y nifer derbyn drwy rannu'r **capasiti â nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol**.

A oes unrhyw reolau ynghylch sut mae awdurdodau derbyn yn pennu eu trefniadau?

Rhaid i awdurdodau derbyn bennu eu trefniadau derbyn yn unol ag egwyddorion a nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion. Rhaid i'r trefniadau:

- fod yn glir;
- bod yn wrthrychol;
- bod yn deg a chyfartal i bob disgybl;
- rhoi mynediad at wybodaeth am drefniadau i rieni; a
- chydymffurfio â'r gyfraith.

Ar ôl i awdurdod derbyn benderfynu ar ei drefniadau, rhaid iddo ymgynghori arnynt. Rhaid cynnal ymgynghoriad ar gyfer trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir rhwng 1 Medi a 1 Mawrth, a rhaid iddynt gael eu pennu erbyn 15 Ebrill, yn y flwyddyn ysgol (y 'flwyddyn benderfynu') sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi.

Rhaid i awdurdodau derbyn awdurdodau lleol ymgynghori bob blwyddyn ar gyfer eu hysgolion. Mae'r rheolau ychydig yn wahanol ar gyfer awdurdodau derbyn sy'n gyrff llywodraethu. Rhaid i'r awdurdodau hynny hefyd ymgynghori'n flynyddol oni bai eu bod wedi ymgynghori ar eu trefniadau o fewn y ddwy flynedd benderfynu flaenorol, neu os nad yw'r trefniadau wedi newid, ac na chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad i Weinidogion Cymru yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn rhoi gwybodaeth am bwy y mae'n rhaid ymgynghori â hwy a phwy y dylid ymgynghori â hwy, a'r manylion i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol cyfagos ac awdurdodau derbyn lleol eraill, cyrff llywodraethu, a chy'rff crefyddol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r awdurdod derbyn 'bennu' ei drefniadau, gydag addasiadau os oes angen.

Pryd mae'n rhaid i mi wneud cais am le ysgol?

Fel arfer, gellir dod o hyd i amserlenni ar gyfer gwneud cais yn y llyfryn gwybodaeth a gyhoeddir gan awdurdodau lleol i rieni, ac ar eu gwefannau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau derbyn yn agor eu system ceisiadau yn ystod mis Medi a mis Hydref. Mae awdurdodau derbyn yn ystyried yr holl geisiadau gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau.

A all rhiant ddewis ysgol benodol i'w blentyn?

Rhaid i awdurdodau derbyn ganiatáu i rieni plant yn eu hardal nodi eu bod yn ffafrio ysgol benodol. Weithiau gelwir hyn 'yr hyn sydd orau gan riant'. Hefyd, gall disgyblion sy'n mynd i'r chweched dosbarth nodi ysgol benodol sydd orau ganddynt.

Pan fydd rhiant neu berson ifanc yn mynegi dewis, rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gydymffurfio â'r dewis hwnnw. Ond, ceir eithriadau:

- Lle mae trefniadau ar gyfer derbyn i chweched dosbarth ysgol yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ddethol yn ôl gallu neu ddawn, a byddai cydymffurfio yn mynd yn groes i'r trefniadau dethol hynny.
- Lle mae plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy a bod y gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Lle byddai cydymffurfio yn niweidio'r gallu i 'ddarparu addysg yn effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon'. Mae hyn yn cynnwys anfantais a allai godi oherwydd mesurau perthnasol y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r terfyn o ran niferoedd mewn dosbarthiadau babanod; er enghraifft, gorfod cyflogi athro ychwanegol neu greu ystafell ddosbarth arall. Mae rhagor o wybodaeth am faint dosbarthiadau babanod ar gael isod.
- Mewn blwyddyn derbyn arferol, ni cheir gwrthod derbyn plentyn i ysgol ar sail anfantais i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau, ac eithrio pan fo nifer y ceisiadau ar gyfer derbyn yn fwy na'r nifer derbyn. Fodd bynnag, gallai fod yn rhesymol i awdurdod derbyn arfer disgrisiwn, mewn amgylchiadau eithriadol, i dderbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn. Gallai hyn fod, er enghraifft, lle mae nifer sylweddol o leoedd gwag ar draws y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol neu os oes prinder dros dro o fath penodol o ddarpariaeth mewn ardal, er enghraifft addysg gyfrwng Cymraeg, tra bod gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu darpariaeth ychwanegol.

Rhaid i bob ysgol a gynhelir sydd â digon o leoedd ar gael (hyd at a chan gynnwys y nifer derbyn) gynnig lle i bob plentyn sydd wedi gwneud cais (ac eithrio'r rhai sydd wedi cael eu gwahardd ddwywaith).

A yw rhieni'n cael gwarant o le yn yr ysgol o'u ddewis?

Er y gall rhieni nodi eu bod yn ffafrio ysgol benodol, os oes mwy o geisiadau nag o leoedd, gall rhiant fod yn aflwyddiannus a pheidio â chael cynnig yr opsiwn a ffefrir ganddynt.

Beth fydd yn digwydd os oes mwy o geisiadau nag o leoedd yn yr ysgol?

Fel rhan o'u trefniadau derbyn, rhaid i awdurdodau derbyn fod â meini prawf i benderfynu sut mae lleoedd yn cael eu dyrannu os oes mwy o geisiadau nag sydd o leoedd. Gelwir y rhain yn 'meini prawf gor-alw'. Er bod gan awdurdodau derbyn ddisgresiwn dros y meini prawf, rhaid iddynt fod yn glir, yn wrthrychol, yn deg o ran eu gweithdrefn, a rhaid iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i'r awdurdod derbyn ymgynghori ar ei feini prawf gor-alw ac yna eu cyhoeddi.

A oes unrhyw feini prawf gor-alw na chaiff awdurdodau derbyn eu defnyddio?

Rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau na fydd trefniadau yn rhoi plentyn o grŵp cymdeithasol neu hiliol penodol, neu blentyn ag anghenion addysgol arbennig/ anghenion dysgu ychwanegol, o dan anfantais annheg, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rhaid sicrhau nad oes angen 'dehongli'r' meini prawf mewn unrhyw ffordd a rhaid iddynt fod yn glir ac yn ddiamwys.

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cynnwys rhestr o 'feini prawf annymunol ar gyfer gor-alw' na ddylai awdurdodau derbyn eu hystyried na'u defnyddio, megis dewis yn ôl gallu neu ddawn. Mae rhai eithriadau i hyn, megis chweched dosbarth. Maent hefyd yn cynnwys enghreifftiau lle y dylid neu na ddylid rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion dros eraill (megis plant staff, disgyblion sydd wedi cael problemau ymddygiad, crefyddau penodol (gydag eithriadau), neu ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig).

A oes unrhyw ofynion i rai plant gael mwy o flaenoriaeth nag eraill?

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cydnabod bod plant sy'n derbyn gofal ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed ac felly mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau derbyn roi'r flaenoriaeth uchaf yn eu meini prawf gor-alw i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal.

Caiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion ffydd roi'r flaenoriaeth gyntaf i'r holl blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal, hyd yn oed os nad ydynt o'r un ffydd â'r ysgol. Fodd bynnag, **rhaid** iddynt roi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal sy'n dilyn yr un ffydd dros blant eraill o'r un ffydd. Os ydynt yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal sy'n dilyn yr un ffydd, **rhaid**

iddynt roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal nad ydynt o'r un ffydd na phlant eraill nad ydynt o'r ffydd honno.

Mae'r Cod yn rhoi arweiniad ar osod meini prawf teg ar gyfer gor-alw. Er nad yw'n nodi y dylai'r meini prawf a restrir fod y meini prawf a ffeirir, mae'n cynnig arweiniad ar eu priodoldeb. Wedi eu cynnwys yn y rhestr o feini prawf posibl mae:

- Brodyr a chwiorydd disgyblion sy'n dal i fod yn yr ysgol;
- Anghenion meddygol;
- Pellter o'r cartref;
- Defnyddio dalgylchoedd.

A yw plentyn ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn sicr o gael lle mewn ysgol benodol?

Mae'r trefniadau ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn newid. Yn lle system tair haen, fel gydag AAA ar hyn o bryd, rhoddir Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol i bob dysgwr ag ADY yn nodi ei anghenion a pha ymyriadau sydd eu hangen arno. Disgwylir i'r trefniadau newydd gael eu gweithredu dros gyfnod o dair blynedd rhwng mis Medi 2021 a mis Gorffennaf 2024.

Gellir gweld canllawiau ynghylch derbyn plant â datganiadau yn y **Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru** (2013). Pan gaiff ysgol a gynhelir ei henwi mewn datganiad AAA, ni all ysgolion wrthod derbyn y plentyn, hyd yn oed pe byddent yn mynd dros eu nifer derbyn drwy wneud hynny.

Yn yr un modd, mae **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021** yn nodi y caiff awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir mewn CDU y mae'n ei baratoi neu'n ei gynnal ar gyfer plentyn. Pan gaiff ysgol a gynhelir ei henwi, rhaid i'r ysgol dderbyn y plentyn waeth beth fo'i dyletswydd o ran y terfyn statudol ar faint dosbarthiadau ar gyfer dosbarthiadau babanod.

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi bod yn rhaid i blant ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiadau gael eu trin yr un mor deg ag ymgeiswyr eraill ac na ddylai awdurdodau derbyn wrthod plentyn oherwydd eu bod yn ystyried nad ydynt yn gallu darparu ar gyfer AAA y plentyn. Rhaid i awdurdodau derbyn ystyried ceisiadau gan blant ag AAA ond nad oes ganddynt ddatganiad, ar sail y meini prawf derbyn a gyhoeddwyd ar gyfer yr ysgol.

A gaiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion ffydd roi mwy o flaenoriaeth i blant o'r un ffydd?

Gall ysgolion sydd â chymeriad crefyddol dynodedig roi blaenoriaeth i aelodau o ffydd neu enwad penodol. Ond, rhaid i hyn beidio â gwrthdaro â deddfwriaeth arall, megis deddfwriaeth gydraddoldeb neu ddarpariaethau gorfodol y Cod Derbyn i Ysgolion. Rhaid i ysgolion ffydd beidio â chadw lleoedd yn agored os nad oes ganddynt ddigon o ymgeiswyr o'u ffydd eu hunain ac mae rhieni eraill wedi gwneud cais am le. Mewn achosion lle dylid rhoi blaenoriaeth i aelodau o ffydd benodol, rhaid i drefniadau derbyn a gyhoeddir gan yr awdurdod derbyn nodi'n glir sut y dylid dangos cysylltiad neu ymrwymiad crefyddol, er enghraifft, drwy offeiriad teulu, gweinidog, neu gynrychiolydd arall yr eglwys...

A gaiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n siarad Cymraeg?

Rhaid i awdurdodau derbyn beidio â mabwysiadu meini prawf gor-alw sy'n dewis disgyblion ar sail gallu neu ddawn. Mae hyn yn cynnwys, yn achos ysgolion cyfrwng Cymraeg, y gallu i siarad Cymraeg. Yr eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol hwn ar feini prawf yn seiliedig ar allu yw ysgolion sydd â threfniadau rhannol ddetholus a oedd eisoes â threfniadau o'r fath ar waith ar ddechrau blwyddyn ysgol 1997/98 ac y caniateir iddynt barhau i ddefnyddio system o ddethol yn ôl gallu. Mae eithriad hefyd ar ddethol yn ôl gallu ar gyfer chweched dosbarth - ceir rhagor o wybodaeth isod. A oes unrhyw resymau pam y gall ysgol wrthod derbyn disgybl i ysgol pan mae ganddi ddigon o leoedd?

Yn gyffredinol, rhaid i ysgolion sydd â digon o leoedd gydymffurfio â dewis rhieni. Fodd bynnag, pan mae plentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy, caiff y gofyniad i gydymffurfio â'r dewis ei ddileu am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y digwyddodd y gwaharddiad diweddaraf. Mae eithriadau i hyn ac nid yw'n berthnasol i:

- Blant â datganiadau AAA;
- Plant a oedd o dan oedran ysgol gorfodol pan gawsant eu gwahardd;
- Plant a wnaeth ddychwelyd ar ôl gwaharddiad parhaol;
- Plant a fyddai wedi dychwelyd yn dilyn gwaharddiad parhaol pe bai wedi bod yn ymarferol gwneud hynny;
- Plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal, lle mae'r cais ar gyfer derbyn yn cael ei wneud gan riant corfforaethol neu ar ei ran.

Mae awdurdodau lleol yn dal i fod yn gyfrifol am ddarparu addysg amser llawn addas ar gyfer plant sydd wedi'u gwahardd ddwywaith, ac efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo i sicrhau lle mewn ysgol neu ddarparu lle mewn Uned Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth addysg arall.

Ble alla i ddod o hyd i wybodaeth ynglŷn â derbyn ar gyfer ysgolion yn fy ardal?

Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi prospectws blynyddol sy'n nodi'r trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardal. Rhaid i hyn hefyd gynnwys amserlen ar gyfer y broses dderbyn. Yn gyffredinol, cyhoeddir y prospectysau ar wefannau awdurdodau lleol ac yn aml mae ganddynt enwau fel 'dechrau yn yr ysgol' neu 'lawlyfr rhieni'. Mae'r rhain yn esbonio sut i wneud cais am le mewn ysgol.

Rhaid i bob awdurdod derbyn mewn unrhyw ardal awdurdod lleol gael dyddiadau dychwelyd cyffredin ar gyfer ceisiadau ysgol gynradd a cheisiadau ysgol uwchradd ar gyfer y flwyddyn derbyn arferol, ond gellir cytuno ar wahanol ddyddiadau cyffredin ar gyfer ceisiadau ysgol gynradd ac uwchradd.

Pryd mae'n rhaid i blentyn ddechrau mynd i'r ysgol?

O dan ddarpariaethau adran 8 o **Ddeddf Addysg 1996**, rhaid i blant a phobl ifanc fynd i'r ysgol yn llawnamser o ddechrau'r tymor cyntaf sy'n dechrau ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed. Yr enw ar gyfer hyn yw'r oedran ysgol gorfodol. Y dyddiadau diwedd tymor yw 31 Mawrth, 31 Awst a 31 Rhagfyr.

A gaiff plentyn ddechrau'r ysgol yn hŷn na 5 oed?

Yn gyffredinol, na chaiff. Efallai y bydd achosion lle hoffai rhieni i'w plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol, er enghraifft, ar gyfer plant sy'n fwy galluog a thalentog, neu ar gyfer plentyn sydd wedi profi problemau ac wedi colli rhan o flwyddyn ysgol. Yn yr achosion hyn, mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi y dylai awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos, drwy ymgynghori â'r rhieni ac â'r ysgol, ac yn benodol, beth fyddai fwyaf buddiol i'r plentyn.

A yw hyn yn wahanol i 'ohirio derbyn'?

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn i rieni cyn i'w plant gyrraedd oedran ysgol gorfodol. Gall plant hefyd gael cynnig addysg feithrin ran-amser am ddim y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, os yw rhieni am fanteisio ar hyn. Yn yr amgylchiadau hyn, gohirio derbyn yw lle gall rhiant ofyn i'w blant fynd i'r ysgol yn rhan-amser neu ohirio dechrau'r ysgol tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol. Effaith hynny yw bod y lle'n cael ei gadw ar gyfer y plentyn ac na ellir ei gynnig i blentyn arall.

Bydd yn rhaid i blentyn fynd i'r ysgol cyn diwedd tymor yr haf neu bydd yn colli ei le yn y dosbarth a bydd yn rhaid i'w rieni wneud cais arall am le. Os na fydd rhiant yn cymryd y lle a gynigir yn yr un flwyddyn ysgol, ni fyddai'r plentyn fel arfer yn ymuno â'r dosbarth derbyn nesaf, ond byddai'n ymuno â'r dosbarth y cynigiwyd lle iddo ynddo yn wreiddiol. Bydd y plentyn yn parhau i ddilyn ei grŵp blwyddyn cronolegol. Ni fyddai'r rhieni'n cael gohirio'r derbyn y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, na'r tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ynddi.

A yw'r drefn derbyn i'r ysgol feithrin yn wahanol i'r drefn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd?

Gall darpariaeth feithrin fod mewn lleoliad a gynhelir neu leoliad nas cynhelir. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch derbyniadau i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion eraill sy'n rhai cymunedol neu'n rhai gwirfoddol a reolir. Dylai'r awdurdod derbyn nodi trefniadau derbyn clir ar wahân ar gyfer y dosbarth meithrin. Rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r broses ffurfiol ar gyfer gwneud cais am le. Dylid sefydlu meini prawf gor-alw gan ddefnyddio'r un egwyddorion â'r rhai ar gyfer darpariaeth oedran ysgol statudol.

Bydd angen i rieni plant sy'n cael eu derbyn i addysg feithrin wneud cais am le yn yr ysgol o hyd os ydynt am i'w plentyn bontio i'r dosbarth derbyn. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn mynychu'r dosbarth meithrin mewn ysgol ynddo'i hun yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd yn cael lle yn y dosbarth derbyn.

Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl i apelio yn statudol os nad ydynt yn cael cynnig lle yn y ddarpariaeth o'u dewis.

A oes cyfyngiadau ar nifer y plant y gellir eu derbyn i ddsbarthiadau babanod?

Mae cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau. Pan fydd un athro ysgol yn bresennol, ni chaiff dosbarthiadau babanod (derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion. Gall awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol lle byddai gwneud hynny'n 'anfanteisiol o ran maint y dosbarth', hynny yw, yn anfanteisiol i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau o ganlyniad i'r mesurau perthnasol y byddai eu hangen i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar niferoedd mewn dosbarthiadau babanod; er enghraifft, pe bai'n rhaid cyflogi athro ychwanegol neu greu ystafell ddsbarth arall. Fodd bynnag, o ran y flwyddyn Derbyn ni ellir dweud y bydd anfantais o'r fath yn codi oni bai y byddai'r niferoedd yn codi'n uwch na nifer derbyn yr ysgol. Gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar gyfer lleoedd mewn unrhyw flwyddyn heblaw'r flwyddyn mynediad arferol (Derbyn), pe bai cynnig lle yn anfanteisiol o ran maint y dosbarth. Mae hyn yn golygu y gellir gwrthod mynediad i Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 pe bai cynnig lle yn arwain at anfantais o ran maint y dosbarth, hyd yn oed os na chyrhaeddwyd y nifer derbyn mewn perthynas â'r grwpiau blwyddyn hyn.

Mae'r terfyn o 30 ar faint dosbarthiadau babanod yn cyfeirio at drefniadaeth y dosbarthiadau ac nid i nifer y plant a gaiff eu derbyn. Er bod yn rhaid trefnu dosbarthiadau i gydymffurfio â'r terfyn lle bynnag y bo modd, mae **Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013** yn nodi amgylchiadau lle gellir derbyn disgyblion fel eithriadau i'r terfyn o ran maint dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys achosion lle gallai fod gan ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, neu fod yn blentyn sy'n derbyn gofal, neu lle mae'r rhieni'n dymuno cael addysg ffydd neu addysg cyfrwng Cymraeg, a'r ysgol dan sylw yw'r unig un o fewn pellter rhesymol i gartref y plentyn.

A yw'r trefniadau ar gyfer y chweched dosbarth yn wahanol?

Efallai y bydd gan ysgol sydd â chweched dosbarth drefniadau derbyn gwahanol ar gyfer y rhai o oedran ysgol statudol ac ar gyfer y chweched dosbarth. Os felly, rhaid i'r awdurdod derbyn gynnal ymgynghoriad ar y trefniadau hynny, gwneud penderfyniad yn eu cylch, a'u cyhoeddi ar yr un pryd ac yn yr un modd â'r holl drefniadau derbyn eraill.

Gall ceisiadau am le mewn chweched dosbarth gael eu cyflwyno naill ai gan y rhiant neu'r person ifanc, neu'r ddau, a rhaid trin ceisiadau yn yr un modd ag unrhyw gais arall am le mewn ysgol.

Caniateir i awdurdodau derbyn bennu trefniadau ar gyfer derbyn i chweched dosbarth sydd wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar ddedol yn ôl gallu, er enghraifft, i gael lle mae'n rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer benodol o TGAU ar raddau penodol. Lle mae trefniadau o'r fath yn bodoli, nid yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhieni (neu'r dysgwr) yn gymwys.

Rhaid i unrhyw awdurdod derbyn sy'n pennu trefniadau derbyn ar gyfer y chweched dosbarth sy'n seiliedig yn llwyr ar ddedol ddefnyddio'r trefniadau hynny yn yr un modd ar gyfer pobl ifanc sydd eisoes yn mynychu'r ysgol honno ond sy'n ceisio lle yn y chweched dosbarth ag ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais am gael eu derbyn i'r ysgol am y tro cyntaf. Ym mhob achos arall, ni fydd angen i'r bobl ifanc sydd eisoes yn mynychu'r ysgol wneud cais am gael eu derbyn i'r chweched dosbarth ac ni ellir gwrthod lle iddynt.

Ni chaniateir i ysgolion gyfweld pobl ifanc na'u teuluoedd er mwyn derbyn i'r chweched dosbarth.

Apelau derbyn i ysgolion

A allaf apelio os na nad ydw i'n cael cynnig lle yn fy newis ysgol?

Mae gan unrhyw riant (ac eithrio un y mae ei blentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol) y gwrthodir lle i'w blentyn yr hawl i apelio i banel apelio annibynnol. Dylai'r llythyr gwrthod egluro pam mae rhiant wedi bod yn aflwyddiannus, ynghyd â chynnwys gwybodaeth am sut i wneud apêl. Mae terfyn amser fel arfer ar gyfer cyflwyno apêl.

Beth allaf ei ddisgwyl o'r apêl?

Mae **Cod Apelau Derbyn i Ysgolion** Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar y broses apelio. Mae'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r panel apêl, sut y dylid cynnal apêl, a pha faterion y dylai'r panel eu hystyried.

Fel arfer, cynhelir gwrandawriadau apêl yn breifat, ond, os oes llawer o apelau ar gyfer yr ysgol, gellir cynnal cam cyntaf yr apêl fel grŵp a gall rhieni eraill sydd hefyd wedi apelio fod yn bresennol hefyd. Yn yr apêl, bydd y swyddog cyflwyno yn egluro pam y gwrthododd yr awdurdod derbyn y cais a bydd modd i'r rhiant gwestiynu rhesymau'r awdurdod derbyn dros wrthod.

Os bydd y panel yn penderfynu nad oedd angen gwrthod lle, bydd y

gwrandawriad yn dod i ben a rhoddir gwybod i'r rhiant bod yr apêl wedi bod yn llwyddiannus. Os bydd y panel yn penderfynu bod rhesymau dros wrthod ar y sail y byddai'r ysgol yn rhy llawn, bydd ail gam yn dilyn. Apelau unigol (preifat) fydd y rhain a chânt eu cynnal fel a ganlyn:

- Bydd y rhiant yn esbonio pam y dylid rhoi lle i'w blentyn yn yr ysgol er ei fod yn llawn.
- Bydd cyfle gan yr awdurdod derbyn i gwestiynu rhesymau'r rhiant.
- Yna bydd yr awdurdod derbyn yn crynhoi'r achos.
- Bydd y rhiant hefyd yn cael cyfle i grynhoi ei achos.

Bydd y panel yn gwrandao ar bob safbwynt yn yr achos a gall ofyn cwestiynau ar unrhyw adeg os oes angen eglurhad neu ragor o wybodaeth i ddod i benderfyniad.

Mae penderfyniad y panel apêl yn derfynol a dim ond pan fydd y rhiant neu'r awdurdod derbyn yn llwyddo i wneud cais am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad hwnnw y gellir ei wrthdroi.

Yn gyffredinol, nid oes gan rieni hawl i ail apêl mewn perthynas â'r un ysgol a'r un flwyddyn ysgol, ond gallant gael apêl newydd yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Mae'r awdurdod derbyn yn cytuno i drefnu ail apêl oherwydd bod diffygion yn yr apêl gyntaf ac mae posibilrwydd sylweddol y gallai'r diffygion fod wedi effeithio ar y canlyniad (gall hyn fod ar argymhelliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler isod) neu oherwydd bod yr awdurdod derbyn yn penderfynu gwneud hynny ar ei liwt ei hun); neu
- Cyflwynwyd cais newydd i'r awdurdod derbyn oherwydd bod newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r rhiant neu'r person ifanc neu'r ysgol, ond roedd yr awdurdod o'r farn y dylid gwrthod y cais newydd hefyd.

Rhaid i awdurdodau derbyn roi lle i blentyn y mae ei rieni wedi ennill apêl. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw awdurdod dros benderfyniadau paneli apêl.

A allaf ddod â rhywun gyda fi i'r apêl?

Gallwch. Gall ffrind, cyngorwr, dehonglydd neu arwyddwr sy'n gallu siarad ar ei ran ddod gyda'r rhiant. Mae rhieni'n rhydd i gael cynrychiolaeth gyfreithiol os ydynt yn dymuno.

Os ydw i'n colli'r apêl, sut gallaf fynd â'r mater ymhellach?

Yn gyffredinol, dim ond os cafwyd problemau gyda'r broses, yn hytrach nag anghytuno â'r canlyniad, y gellir mynd â'r mater ymhellach.

Ni all Gweinidogion Cymru adolygu na gwrthdroi penderfyniadau paneli apêl annibynnol unigol ond gallant ystyried a ddylid arfer eu pwerau ymyrryd (o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) yn un o'r amgylchiadau a ganlyn:

- ni chafodd y panel ei gyfansoddi yn y modd cywir gan yr awdurdod derbyn, neu
- nid yw'r awdurdod derbyn wedi gweithredu'n rhesymol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r broses apelio, neu mae'r awdurdod wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â'r broses honno.

Dim ond pan mae'r rhai sy'n apelio, neu awdurdod derbyn, yn gwneud cais llwyddiannus am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad hwnnw y gall penderfyniad panel apêl gael ei wrthdroi.

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **bwerau cyfreithiol** i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac yn rhoi gwasanaeth annibynnol am ddim.

Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i gwynion ysgrifenedig ynghylch achos o gamweinyddu gan banel apêl derbyn. Mae camweinyddu yn ymwneud â materion fel methu â gweithredu'n annibynnol ac yn deg, yn hytrach na chwynion lle mae unigolyn yn teimlo bod y penderfyniad a wnaed yn anghywir. Mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion, gall yr Ombwdsmon:

- Edrych ar gwynion ynglŷn â gweithdrefnau derbyn ysgolion yng Nghymru a'r broses ar gyfer apelau derbyn;
- Edrych ar gwynion gan rieni sy'n ystyried bod awdurdod lleol wedi gweithredu ei weithdrefn derbyn i ysgolion mewn modd annheg;
- Edrych ar gwynion gan rieni sy'n ystyried bod Panel Apêl Derbyn wedi gweithredu'n amhriodol.

Ni all yr Ombwdsmon orfodi awdurdod lleol i gynnig lle i blentyn mewn ysgol. Ni all wyrdroi penderfyniad Panel Apêl Derbyn chwaith. Fodd bynnag, os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod gwrandawriad y Panel yn amhriodol neu'n annheg, gall argymhell y dylai Panel newydd wrando'r apêl.

Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon ar 0300 790 0203 neu drwy e-bost yn holwch@ombwdsmon.cymru a gallant eich cyngori a oes modd helpu ymhellach.

Math o achos llys lle mae barnwr yn adolygu cyfreithlondeb penderfyniad neu weithred gan gorff cyhoeddus yw Adolygiad Barnwrol. Mae adolygiadau barnwrol yn herio'r ffordd y gwnaed penderfyniad, yn hytrach na'r casgliad a wnaed. Ni fydd y llys yn newid y penderfyniad i'r hyn y mae'n ei ystyried i fod y penderfyniad 'cywir'. Gellir defnyddio Adolygiad Barnwrol i adolygu penderfyniadau paneli apêl derbyn ysgolion. Adolygiad barnwrol yw'r rhwymedi dewis olaf, a dylid ei ddefnyddio dim ond ar ôl i'r holl ymdrechion eraill i ddatrys mater fethu.